

## Croeso i Warchodfa Natur Genedlaethol Coetiroedd Pen-hw

### Coetir calch hynafol a phrin

Mae tair coedwig hynafol (cyn 1600) yn rhan o'r warchodfa, gan orchuddio llethrau a chopâu'r bryniau calchfaen. Y goedwig hon, Coed Wen, yw'r unig un sy'n caniatáu mynediad i'r cyhoedd. Mae'r safleoedd, ynghyd â'u blodau anghyffredin, yn brin iawn ym Mhrydain.

### Dulliau o reoli coedwigoedd hynafol

Y coed mwyaf cyffredin yw'r onnen, y geirosen ddu, pisgwydd dail bach, a'r llwyfen lydanddail - maent oll yn ffynnu mewn priddoedd calchog. Mae yma goed derw hefyd, gyda rhai yn 200 mlwydd oed.

Mae'r coetir wedi cael ei phrysgoedio a'i defnyddio fel coedlan ers cyn cof - gyda'r boncyffion yn cael eu torri'n agos i'r llawr gan arwain at dyfiant sawl coesyn llai. Er ein bod ni'n tueddu i brysgoedio'r rhan fwyaf o'r coed yn eu tro, rydym yn caniatáu i rai aeddfedu'n goed maint llawn. Mae prysgoedio'n ffordd wych o roi hwb i fywyd gwyllt gan ei fod yn hybu datblygiad cymysgedd o lennyrch a manau mwy cysgodol. Wrth i ni dorri'r coed, bydd y cynnydd mewn golau a ddaw yn ei sgil yn peri i lawer o flodau gwyllt ymddangos.

## Welcome to Penhow Woodlands National Nature Reserve


### Rare limestone ancient woodlands

Three ancient woodlands (dating from pre-1600) covering the slopes and tops of limestone hills make up the reserve. This one, Coed Wen, is the only one you can visit. These woods, with their rare flowers, are very scarce in Britain.

### Ancient woodland management technique

The trees you will see most often are ash, wild cherry, small-leaved lime and wych elm, which all flourish on the lime-rich soils. But look out, too, for some 200 year-old oaks.

This woodland has been harvested by coppicing since ancient times - cutting trees down to ground level which then produce lots of smaller stems. Although we coppice most of the trees in a rotation, we leave some to grow into large mature trees called standards. Coppicing is excellent for helping a wide range of wildlife because it encourages a mix of open (glades) and shaded areas to develop. After coppicing part of the woodland, lots of wildflowers appear - enjoying the increased light reaching the woodland floor.



### Cadwch lygaid barcod:

#### Yn y gwanwyn:

- Edrychwch am flodau melyn llachar llygaid Ebrill o fis Chwefror ymlaen
- Mwynhewch holl flodau'r gwynn yn chwifio yn yr awel ym mis Mawrth ac Ebrill
- Edmygwch y banciau sy'n drwm dan glychau'r gog yn hwyr yn y gwanwyn
- Chwiliwch am y genhinen-Beidr wyllt gynhenid - mae'n llai na'r mathau eraill
- Cadwch lygaid barcod yn y gwanwyn am graffanc-yr-arth werdd, mae'n brin!

#### Yn yr haf:

- Gwylwch am fflach du a gwyn y gwybedog brith
- Edrychwch am oren a llwyd y ceiliog tingoch lliwgar, sy'n edrych fel bandit
- Yn gynnar yn yr haf, chwiliwch am un e'n blodau difyrfa - y tegeirian nyth aderyn
- Ceisiwch ganfod blodau gwynion bychain llysiâu Steffan.

### Rhagor o fywyd gwyllt:

- Mae sgrech y coed, coch y berllan, y dringwr bach, corheddyd y coed, y gnochell fraith fwyaf, a'r bwncathod uwchlaw, oll yn bresennol trwy gydol y flwyddyn
- Chwiliwch am arwyddion fod moch daear o gwmpas, megis llwybrau neu olion traed
- Edrychwch am blanhigion prin megis y llaethlys syth a chwllwm cariad
- Wrth i'r haf droi'n hydref, bydd y fffngau yn ymddangos - yn enwedig mewn tywydd gwlyb.

### What to look out for:

#### In spring:


- Look for the cheery yellow flowers of lesser celandine from February
- Enjoy displays of the waving white flowers of wood anemones in March/April
- Admire the banks of bluebells (and their distinctive scent) dotted with primroses later in spring
- Keep an eye out for native Welsh daffodils - smaller than the garden variety
- Try to spot the rare green hellebore in early spring.

#### In summer:

- Watch for the black and white flash of a pied-flycatcher
- Be alert for the colourful black, orange and grey bandit-like colouring of the male redstart
- Look out for the weird and wonderful bird's nest orchid in early summer
- Try to spot the delicate white flowers of the 'enchanter's nightshade'.

### Other wildlife to look out for:

- At any time of year keep an eye and ear out for jays, bullfinches, tree creepers, tree pipits, greater spotted woodpeckers and largest but not least - buzzards overhead
- Try to spot signs of badgers including their trails and footprints
- Keep an eye out for rare plants like Tintern spurge and herb Paris
- Look out for fungi as summer moves towards autumn, especially in damp weather.



### Llwybr Natur Coed Wen

#### Coed Wen Nature Trail



#### Cymedrol | Moderate

Pellter | Distance: 1m | 1.5km  
Amser | Time: ¾ awr | hour  
Dringo | Climb 100 tr/ft | 30m

**UCHAFBWYNTIAU:** Dilynwch y llwybr cylchog hwn o gwmpas y coetir - ffordd wych o weld blodau gwyllt yn y gwanwyn, adar yr haf, a fffngau'r hydref.

Gallwch hefyd ddilyn y llwybr cyhoeddus ar hyd ffin ddwyreiniol y goedwig.

**HIGHLIGHTS:** Follow this circular walk around the woodland - great for wildflowers in spring, summer-visiting birds, and fungi in autumn.

You can also follow a public footpath along the eastern edge of the wood.



tingoch redstart



cenhinen-Beidr wyllt Welsh daffodil



llaethlys syth Tintern spurge



chwllwm cariad herb Paris